

Diolch i Gymdeithas
Gymraeg Treforys am
noddi'r rhifyn hwn!

Wilia



RHIF 442 CHWEFROR
2022 500

PAPUR MISOL CYMRAEG
ABERTAW



"Roedd gwerthu arlein yn golygu bod yn rhaid i chi roi llyfrau ar silffoedd yn ôl rhifau, fel y gallwch ddod o hyd i'ch llyfrau'n gyflym. Mae siopau llyfrau go iawn yn rhoi llyfrau ar silffoedd yn ôl pwnc, felly mae'n anodd i ni i ddod o hyd i lyfr. "Y peth gwaethaf am werthu arlein oedd peidio dod i 'nabod y bobl oedd yn prynu fy llyfrau. Felly awgrymodd fy meibion fy mod yn creu siop lyfrau symudol.

"Arweiniodd hynny i mi gael

gafael ar hen fan, llenwes i'r hen fan â stoc ddiddorol o lyfrau da. Enwais y fan yn Bws Llyfr Symudol Dylan's a'i yrru i wahanol wyliau ar draws y wlad. Roedd yn llwyddiant mawr, ac yn fwy o foddhad nag elw ariannol. Dyma oedd dechrau fy antur newydd. "Roedd yn llawer o hwyl ac roedd yn golygu fy mod yn ôl yn cwrdd â phobl oedd â diddordeb mewn llyfrau."

Ymhlith y rhai i brynu llyfrau gan Jeff oedd cyn Brif Weinidog James Callaghan (prynodd The Ragged Trousered Philanthropists), Mick Jagger, (argraffiad cyntaf Under Milk Wood), a dau o gyn-lywyddion yr Unol Daleithiau sef Jimmy Carter a Bill Clinton.

"Mae'r bws wedi heneiddio dros y cyfnod clo," dywedodd Jeff. "Dyw'r gost i ddod â'r bws nôl i weithio ddim yn gynaliadwy.

"Roedd y Bws Llyfrau yn ffordd wych i ddaithlu 50 mlynedd yn y fasnach lyfrau.

Dwi'n gweld ei eisiau'n ofnadwy ond mae fy ngwraig yn gweld mwy ohonof i! "Dwi nawr yn ceisio lleihau fy stoc o lyfrau ac rydw i'n parhau i fod yn brysur. Dwi'n ysgrifennu llyfr, y teitl yw The Two Dylans sef Bob Dylan a Dylan Thomas. Mae hyn yn cadw fi'n brysur ynghyd â ffilm ddogfen yn adrodd hanes y Bws Llyfrau o'r enw'r BookBus."

*Diolch i
Cymru
Fyw, BBC,
am y
stori
uchod a'r
lluniau.*

BWS JEFF TOWNS YN DOD I BEN EI DAITH

Mae busnes llyfrau o fws Jeff Towns yn **dod i ben. Bydd darllenwyr Wilia'n gyfarwydd iawn â'i fws mewn eisteddfodau a gwyliau eraill. Bu'n arbenigo mewn**

gwerthu llyfrau ail law o ddiddordeb i Gymru, a llyfrau Cymraeg yn eu mysgr. Ar ôl symud o West Ham yn Llundain i Abertawe, dechreuodd 'Jeff the Books' werthu llyfrau, fel mae'n esbonio: "Roeddwn i'n gelcwr (*hoarder*) llyfrau, felly agorais i siop lyfrau ail-law.

"Agorais y siop ar 75 Stryd Fawr Abertawe yn 1970. Ond o fewn tri mis symudais y siop i Oxford St yn agos at siop lyfrau arall oedd yn berchen i Ralph Wishart, roedd e wedi bod yn y busnes ers 1925.

Siop Ralph oedd y brif siop llyfrau ail law yn Abertawe am flynyddoedd helaeth, Roedd y siop ger yr orsaf, ond pan chwalwyd yr adeiladau wrth newid y strydoedd, symudodd i siop i Dillwyn Street.

Medd Jeff Towns, "Roedd Ralph yn ffrind agos iawn i Dylan Thomas ac roedd e yn dda iawn i mi pan ddechreuais i yno. Roedd hi braidd yn ddigwylydd i alw fy siop yn Dylan's oherwydd siop Ralph oedd y siop lyfrau Dylan's gwreiddiol."

Wrth i'r byd droi yn ddigidol, dechreuodd bobl brynu mwy a mwy arlein a dechreuodd cwmnïau fel rhai Jeff ddiodeff. "Ceisiais symud arlein ond roeddwn i'n ei gasáu," eglura Jeff.

YR URDD YN GANT OED: OND NEB O ABERTAW YN YMAELODI YN 1922




Gan mlynedd yn ôl yn union, cyhoeddwyd cychwyn yr Urdd yn rhifyn 361 o gylchgrawn *Cymru'r Plant*.

Dyma'r neges i'r plant:

"Mae Cymru mewn cymaint o berig heddyw ag y bu erioed. Mae cymaint o ddiethriaid o'n cwmpas fel y mae hyd yn oed ein hiaith, eich iaith chwi a minnau,

PARHAD AR Y DUDALEN OLAF

Isod: rheolau'r Urdd, Ionawr 1922



Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe

Ar *Daith Olaf*, gan Alun Davies, Y Lolfa, £8.99. Barn Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe. Marciau: rhwng 8 a 9

"Nofel gyffrous ac mae'n dda cael dweud hynny am nofel Gymraeg."

"Hawdd iawn ei ddarllen; yn dwlu ar y penodau byr – roedd yn llifo'n well wedyn!"

"Hawdd i ddysgwyr fel fi; mae'n bosibl argymhell y llyfr i ddysgwyr da, yn bendant."

"Roedd y newid safbwynt bob pennod, gyda'r enw ar ben y bennod, yn gweithio'n dda, fel roedd yn y llyfrau eraill."

"I fi, efallai fod gormod o 'leisiau' yn y nofel."

"Roedd defnyddio'r person 1af drwy'r nofel, gyda safbwyntiau gwahanol ar yr un olygfa, yn greffus dros ben."

"Y dechrau braidd yn llafurus achos nad o'n i'n cofio beth oedd wedi digwydd yn y ddau lyfr blaenorol. Efallai y byddai cryn-odeb byr wedi helpu. Ond wedi mynd i mewn iddo wedyn ac wedi mwynhau."

"Cymerodd hi ychydig o amser, efallai hanner ffordd drwy'r llyfr, i'r stori ddechrau symud go iawn."

"Anodd credu ambell beth yn y plot, e.e. na fyddai Taliesin a Mari wedi mynd at yr heddlu'n gynharach."

"Enghraifft wych o lyfrau *Aber-noir*."

"Oedd y llyfr yn cael ei noddi gan Rib-

ena? Roedd tipyn o sôn amdano!"

"Anodd credu na fyddai neb wedi adnabod Taliesin yng nghyfarfod AA Aberystwyth."

"Roedd yr awdur yn fedrus wrth ein cael i feddwl mai dyn oedd 'E'. Wrth gwrs, mae'n fwy tebygol mai dyn fyddai."

"Diddorol oedd yr achosion yr oedd Taliesin yn ymdrin â nhw yn y podlediad; nid oedd yr awdur wedi cymryd achosion go iawn – neu efallai wedi newid enwau. Roedd enwau ambell droseddwr yn codi yn Google mewn cyd-destunau eraill!"

"Erbyn y diwedd, ro'n i'n methu rhoi'r llyfr i lawr."

Rydyn ni'n cwrdd ar ail nos Lun y mis am 7.30. Croeso aton ni; rydyn ni'n gob-ethio dychwelyd i Dŷ Tawe yn y dyfodol agos. Cysylltwch ag el-in.angharad.meek@gmail.com i gael rhagor o wybodaeth.

Llyfrau'r misoedd i ddod:

14 Chwefror *Amser Mynd* gan Dyfan Lewis (o Graig-cefn-parc), Gwasg Pel-lydr, £10

14 Mawrth *Yn Fyw yn y Cof* gan John Roberts, Y Lolfa, £8.99

11 Ebrill *Hela* gan Aled Hughes, Y Lolfa, £8.99

9 Mai *Niwl Ddoe* gan Geraint V. Jones, Y Lolfa, £9.99

13 Mehefin *Trwy'r Darlun* gan Manon Steffan Ros, Y Lolfa, £5.95, hefyd ar gael fel e-lyfr (£4.99)

gyn-aelod o Aelwyd Treforus, bu Geraint yn drefnydd ar Eisteddfod yr Urdd ac yn gynhyrhydd radio a theledu. Yn aelod o'r grwpiau "Hergest" a "Mynediad am Ddim" mae Geraint wedi recordio dau gryno-ddisg o ganeuon, a chyflwyno ei hunangofiant yn y llyfr "Diawl Bach Lwcus." Edrychwn ymlaen at noson ddfyfr yn ei gwmni.

Newyddion Cymdeithas Gymraeg Treforys

Er nad ydym yn gallu cyhoeddi y rhaglen gyfan am 2022, dechreuodd flwyddyn y Gymdeithas gyda'r cyfarfod agoriadol yn Eglwys Dewi Sant, Treforys. Parti Plygain Llandeilo oedd y gwsteion, a chawsom noson fendithiol iawn yng nghwmni'r parti talentog. Cyflwynwyd carolau plygain gan y parti ac unigolion, a chafwyd detholiad addas o ddarlenniadau rhwng y carolau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas yn ein cartref arferol, sef Ffestri'r Tabernacl, Treforys, nos lau Chwefror 17eg am 7.00.y.h.

Un o'n haelodau, y Prifardd Robat Powell, fydd yn sgwrsio â Geraint Davies. Mae Geraint yn gerddor ac yn cyfansoddwr. Ymhlith ei gyfansoddiadau mae anthem answyddogol Urdd Gobaith Cymru, "Hei Mr Urdd."

Mae'r gân yn cael adfywiad eleni, ym mlwyddyn dathlu'r Urdd yn 100 oed. Yn

Cyfeillion Gydol Oes gyda'r Urdd

Bydd rhai Darllenwyr yn cofio am Bantfyfedwen, y Borth, sydd yn y Llundain, fuodd yn perthyn i Fudiad yr Urdd rhwng 1947 a 1972.



Mae'r llun arbennig yma ar Gerdyn Post a anfonwyd yn y 1950'au gan Aelod 1af un Mudiad yr Urdd.

Marian Williams, Treuddyn, sir Fflint oedd yr Aelod 1af i ymateb yn y 1920'au i wahoddiad Syr Ifan ab Owen Edwards i Gymry ifanc ymuno a Mudiad newydd yr Urdd.

Fe anfonwyd y Cerdyn Post yma at fy Mam, fy Mam hithau yn un o aelodau cyn-ta'r Urdd, yng Ngheredigion.

Roedd Marian a'r teulu yn mwynhau gwyliau ym Mhantfyfedwen pan anfonodd y Cerdyn.

Fe gafodd y ddwy wraig pan yn ifanc lawer o hwyl yn perthyn i'r Urdd, trwy fynychu'r gwrsylloedd a chymhell aelodau eraill i ymuno a'r Mudiad newydd. Mae'r Cerdyn Post yn eitem i'w Drysori yn wir.

Wedyn am flynyddoedd ar ôl hynny bu'r ddwy gyfeilles yn cymhell cenhedlaeth newydd o Gymry i eisteddfota, gwrsylla, darllen Cymraeg a darllen cylchgronau'r Urdd ac ymuno ag ymgyrch gwerthu llyfrau Cymraeg a.y.b.

Ym Mangor y bu Marian [wedyn Lloyd] yn byw ac yn y Gopa Pontarddulais bu fy Mam innau yn cofrestru aelodau newydd i ymuno a'r Urdd yn eu cannoedd. Dau beth arall sy'n dod i'm meddwl wrth gofio cartre Marian a William Lloyd ym Mangor sef y Delyn oedd yn amlwg yn eu llofa ac enw eu cartre sef Garreg Wen.

Dafydd Gwylon

Wilia Chwefror

yng ngofal Mark Stonelake
Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.

Anfonwch unrhyw beth a allai fod o
ddiddordeb i'n darllenwyr
ar gyfer y rhifyn mis Mawrth
erbyn Chwefror 25:

wilia@hotmail.co.uk

Rhifyn Mawrth yng ngofal
Steve Morris



Ariennir yn rhannol
gan Lywodraeth Cymru

Cwrs Dysgu Cymraeg newydd ar gyfer y sector amaeth.

Mae cyrsiau 10 awr sector-benodol Cymraeg Gwaith, gan gynnwys amaeth, ar gael am ddim o wefan Dysgu Cymraeg - <https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/cyrsiau-blasu-ar-lein/>

Cwrs blasu 10 awr wedi'i deilwra i'r sector Amaeth.

10 hour Welsh taster course tailored to the Agriculture sector.

dysgucymraeg.cymru

Nodyn i'r Dyddiadur

Bydd bywyd arwr arloesol o'r gwasanaeth iechyd yn destun pedair darlith amser cinio Zoom a gyflwynir gan Sefydliad Brenhinol De Cymru.

O'i feddygfa yng Nglyncorrwg cyflwynodd y Dr Julian Tudor Hart, llun gyferbyn, amddiffynydd brwd o'r GIG a dyfeisiwr y 'ddefdf gofal groes', welli-



annau iechyd arloesol. Cyflwynwn bedwar cyflwyniad Zoom ar ei fywyd, gwaith ac etifeddiaeth, gan Brian Gibbons, Graham Watt, George Davey Smith, Gareth Jones a Jonathan Richards, ar 3, 10, 17 a 24 Chwefror, 1:00pm. Croeso i bawb: mynediad am ddim. Manylion:

<http://www.risw.org/events-and-activities.htm>

GEMAU CYMRU

Chwefror - Mawrth 2022

Iwerddon vs. Cymru	6 Gwlad	05/2 (14:15)
Cymru vs. Yr Alban	6 Gwlad	12/2 (14:15)
Lloegr vs. Cymru	6 Gwlad	26/2 (16:45)
Cymru vs. Ffrainc	6 Gwlad	11/3 (20:00)
Cymru vs. Yr Eidal	6 Gwlad	19/3 (14:15)
Cymru vs. Awstria	Play-offs Cwpan y Byd	24/3 (19:45)

Bar yn agor 45 munud cyn y gic gyntaf!

Tŷ Tawe, 9 Stryd Christina, Abertawe, SA1 4EW

SHIRLEY VALENTINE YN Y TALIESIN

Dychweliad comedi aruthrol o waith awdur Blood Brothers ac Educating Rita - ond tro yma, wedi ei pherfformio yn y Gymraeg.

Cyfieithiad newydd i'r Gymraeg gan Manon Eames

Yn addas i bawb o ddysgwyr i siaradwyr rhugl.

[Tocynnau | Tickets](#)



TU FEWN TU FAS

19.02.2022

Tŷ Tawe, 9 Stryd Christina, Abertawe, SA1 4EW

Dau berfformiad
Two performances
14:00 | 17:00

Am ddim | Free

Sulwyn Thomas yn ymddiswyddo fel cadeirydd Pwyllgor Llyfrau Llafar Cymru

Yn ystod misoedd olaf 2021, hysbyswyd Pwyllgor Llyfrau Llafar Cymru gan Sulwyn Thomas, ei fod yn dymuno ymddiswyddo fel Cadeirydd ar ddiwedd y flwyddyn. Yn anffoddog iawn y derbyniodd y pwyllgor ei benderfyniad gan iddo fod yn gadeirydd gweithgar a brwdfrydig ers 2010. Ond mae ei gyfraniad cyson a diflino yn ymestyn yn ôl ymhellach na hynny i ddyddiau'r Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion. Yn sgil ei holl gysylltiadau a chynifer o bobl led-led Cymru a thu hwnt i Glawdd Offa llwyddodd i ennyn llawer o diddordeb a chefnogwyr i'n Gwasanaeth. Rydym yn parchu'r ddymuniaid i symud o'r neilltu er mwyn rhoi cyfle i rywun iau i gymryd yr awenau i'n harwain i'r dyfodol heriol sydd o'n blaenau. Dymunwn yn dda iddo a gwyddom y gallwn ddiwyddu arno am ei gefnogaeth i'r elusen eto yn y dyfodol. Aelod arall o'r pwyllgor ers tro yw'r Cynghorydd Emlyn Schiavone a thrwy gytundeb unfrydol yr aelodau gwahoddwyd ef i fod yn olynydd i Sulwyn. Gytunodd i dderbyn y swydd gan addo gwneud ei orau i hyrwyddo'r gwaith. Dymunwn yn dda iddo gan wybod y caiff bob cefnogaeth gan ei gyd-aelodau.

Pe baech yn gwybod am unrhyw un a fyddai'n elwa o'n gwasanaeth neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Mrs Linda Williams:

Rhif ffôn 01267 238225
Gwefan <http://www.llyfraullafarcymru.org.uk>
E-bost: llyfraullafarcymru@outlook.com

YMDDIRIEDOLAETH SALESBURY

Annwyl Ddarllenwyr Wilia

Dyna sy'n rhoi cymaint o bleser i ni fel aelodau Ymddiriedolaeth William Salesbury – cael cefnogi a dathlu ein pobl ifanc sydd wedi dewis astudio eu haddysg ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Gweledigaeth y diweddar Dr Meredydd Evans – **Merêd i'w gyd-Gymry – oedd y gronfa.** Ei nod – galluogi pobl Cymru i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn ffordd ymarferol.

Cafodd yr ymddiriedolaeth ei henwi ar ôl William Salesbury, cyfieithydd y Testament Newydd i'r Gymraeg yn 1567, oherwydd iddo annog ei gyd-Gymry yn ei ymaddrodd 'Mynnwch ddysg yn eich iaith.'

Sefydlwyd y gronfa yn 2012 a darparodd naill ai ysgoloriaethau neu wobrau i ryw ddwsin o fyfyrwyr hyd yn hyn.

Mae'r Coleg Cymraeg yntau yn mynd o nerth i nerth ac wedi derbyn cefnogaeth sylweddol ychwanegol yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

Crëwyd y gronfa trwy:

- * Gynnal digwyddiadau
- * Annog unigolion i gyfrannu yn rheolaidd trwy orchymyn banc neu trwy gyfraniadau unigol
- * Apelio at gyrrff Cymraeg, a'u haelodau, i gyfrannu
- Y llog o Gronfa Fuddsoddi yr elusen

Os hoffech chi gyfrannu at y gronfa gallwch gysylltu yn uniongyrchol â'r Trysorydd, Arwel Jones ar rocetarwel@yahoo.com. Os hoffech chi i un ohonom ddod i siarad â'ch cymdeithas

neu gymuned, rhowch wybod trwy e bostio [ysgrifen-](mailto:ysgrifen-nydd@cronfasalesbury.org)

nydd@cronfasalesbury.org

Yr ydym ni, yr Ymddiriedolwyr presennol, yn awyddus i ychwanegu o leiaf ddau ymddiriedolwr newydd at ein rhengoedd. Ceir manylion ar wefan y Coleg Cymraeg, ar wefan YWS neu ceir manylion gan y Trysorydd.

Yn gywir, Ann Beynon (Cadeirydd), Rhian Huws Williams (Ysgrifennydd), Arwel Jones (Trysorydd), John Gwilym Jones, Dafydd Iwan, Ieuan Wyn, Menna Machreth, Owain Schiavone.

Cylchlythyr Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Mae Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Mae'r ddogfen yn cynnwys nifer o bethau y gellir eu gwneud ar lefel gymunedol er mwyn cefnogi a diogelu cymunedau Cymraeg lle mae nifer fawr o ail gartrefi.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i glywed eich barn ar y ddogfen, ac i chi rannu'ch syniadau am weithgareddau newydd y gall cael eu datblygu er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i gymunedau Cymraeg i helpu creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg gwerth chweil.

Ymatebion erbyn: 22 Chwefror 2022

Hoffech chi fod pobl yn gallu byw yn y gymuned lle cawsant eu magu ac i'r Gymraeg barhau i ffynnu fel iaith gymunedol? Rho dy farn ar Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg newydd isod.

<https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg>

Dyma gyfle i rannu eich barn ar Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Dyma sut mae Llywodraeth Cym yn bwriadu sicrhau bod pobl yn gallu byw yn y gymuned lle cawsant eu magu ac i'r Gymraeg barhau i ffynnu fel iaith gymunedol. <https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg>



MIRLUN I YSGOL GWYR

Mae Oriolodl, cwmni creu lluniau Rhys Padarn Jones, wedi creu murlun i Ysgol Gyfun Gwyr. Mae'r lluniau'n cynnwys delweddau o Abertawe, gan gynnwys bae'r tri chlogwyn, y Mwmbwls, yr hafod, stadiwm pêl-droed, yr arena newydd a Thy Tawe. Yn y canol mae'r geiriau a ffurf calon.

Camp lluniau Oriolodl yw creu darlun o lythrennau, a'r gamp wedyn yw darllyn y geiriau. Tybed ydym ni wedi darllen yn iawn: Gwyr i ni yw rhagori— A'n hysgol sy'n esgor ar ddysgu Ei hysbryd yn llawn asbri A'n hiaith yw ei chalon hi

Blodau'r Flwyddyn Newydd gan Rob Evans

Ar y cyntaf o fis Ionawr 2022 roedd hi'n ddiwrnod digon sych i ddechrau fy ngwaith ymchwil i ba blanhigion bydda i'n gweld yn blodeuo yn y chwe diwrnod cyntaf o'r flwyddyn. Gan roeddw'n i braidd yn brysur efo ormod o bethau eraill penderfynais fynd bob yn ail ddiwrnod a hefyd cadw'r gwaith ymchwil tu fewn i ffiniau Gŵyr. Yn yr wythnosau yn arwain at y flwyddyn newydd roeddw'n i wedi treulio amser yn mynd trwy Llyfr Natur Iolo ac roedd y profiad yn dweud wrthyf am beidio disgwyl gormod - dim ond rhestr o 11 oeddw'n i'n gallu creu. Ond roeddw'n i'n sicr o gael un.

Anelais am Benmaen a pharcio mewn lle tu ôl i'r eglwys. Cyn i mi adael y car roedd y planhigion gyntaf ar fy rhestr - yr eithin. Diolch byth am yr eithin! Cerddais i fyny ochr Cefn Bryn a chof-

iais aros i edmygu'r olygfa tu ôl i mi llawer gwaith, islaw roedd bae'r Tri Chlogwyn, y bae sydd wedi cael ei gyfrif fel un o'r harddaf yn y byd. Dw i mor ffodus mod i'n gallu mwynhau'r olygfa unrhyw amser trwy'r flwyddyn. Cyrraedd y pen a chroes-i'r ffordd i edmygu moryd yr afon Llŵchwr ar ochr ogleddol Penrhyn Gŵyr. Yn fy mhen mae llun o ddŵr yn byrlymu trwy greigiau calchfaen yn agos at Gastell Carreg Cennin a dyma'r un dŵr



wedi cyrraedd y môr. A diolch i un o deithiau Cymdeithas Edward Llwyd am y darlun yna.

Mae'n rhaid dweud fy mod wedi cael pleser ar y daith ac wedi mwynhau bod allan yn yr awyr iach ond er hynny, dim ond yr eithin oedd ar fy rhestr. Mae'n rhaid gwneud yn well y tro nesaf.

A dyma fi ar yr ail ddiwrnod ac yn crafu fy mhen ond gan fod i wedi cyfyngu fy hun i Benrhyn Gŵyr gwaeth i mi heb ddilyn fy nhrwyn yn y gobaith y byddaf yn cael syniadau. Heibio Penmaen mae lle i barcio ond a oes lle i mi? Oedd mi oedd lle i un bach ond wrth droi i mewn sylweddolais fod cyflwr y wyneb yn ofnadwy, tyllau mawr ym mhob man felly dod allan yn ofalus oedd y peth callach. Troi i fynd trwy Reynaldston wedyn ac roedd y lle parcio ar y pen yn llawn hefyd felly mynd ymlaen heibio Broad Pool. Ar ddiwrnod sych mae'n bosib parcio ar ochr y ffordd ond roedd gormod o bobl wedi trio yn barod. Ymlaen at Lanrhid-ian a dilyn y ffordd isel wrth ochr y morfa heli. Welais rywle i barcio a

Y lle nesaf oedd Penclawdd a digon o le i barcio. Mae gwaith wedi cael ei wneud ar y morglawdd yn ddiweddar ac roedd blodau wedi cael eu plannu a dyma flodyn cyntaf y diwrnod - **Melyn yr Yd. Cerdded wrth ochr y morfa wedyn a gweld tipyn o liw yn y pellter - llygad y dydd.**

Ar y trydydd diwrnod y cynllun oedd cerdded o Southgate hyd at y clogwyn uwch ben Bae'r

Tri Chlogwyn, parcio'r car ac ar y ffordd i gael tocyn roeddw'n i'n sicr mod i wedi clywed teulu yn siarad Cymraeg. Ar y ffordd yn ôl es i'n agosach atyn nhw ac ia, mi oedden nhw'n siarad Cymraeg. Roedd rhaid cael sgwrs, **Nain a Taid yn byw yn Abertawe a'r rhieni a'u plant yn byw yng Nghardydd** - pob un yn siarad Cymraeg. Hyfyrd!

Ac ymlaen at y daith olaf ond roedden ni wedi cael ormod o law yn ddiweddar a'r llwybrau'n fwdlyd dros ben ac i wneud pethau'n waeth roedd wyneb y llwybrau wedi dirywio'n ofnadwy. Dim ond yr eithin oedd i'w weld ond, arhoswch! Dyma dant y llew dewr iawn yn sefyll yn syth yn erbyn y gwynt oer, roedd o mewn blodau ond yn gyndyn i ddangos ei hun yn ei holl ysblander.

A dyna ni. Mae'n rhaid i mi ddweud nad ydw i'n gweld dim bai ar y planhigion i beidio mentro tu allan a doedd dim pryfed i'w weld yn chwilio am baill. Llond law oedd i'w gweld a gallwch chi ddweud dim ond yr eithin oedd yr un go iawn achos fflwcc oedd y lleill efallai. Dw i'n clywed chi'n gofyn y cwestion "A oedd pwynt i hyn i gyd?" Cwestiwn da, a'r ateb yw "Oedd!" Dyn ni'n dysgu dim wrth gymryd pethau'n ganiataol. Mae'n rhaid i ni ofyn cwestiynau ac mae'n rhaid i ni chwilio am atebion, dyna sut dyn ni'n dysgu.

A hefyd, ar ôl i ni gael dwy flynedd o gyfyngiadau dyn ni gyd wedi dod i arfer â pheidio mynd allan ac mae peryg na fydden ni'n mentro gymaint ar ôl i'r cyfnod ofnadwy yma dod i ben. Mae'n dda cael rheswm. A gawn ni obeithio bydd normalwydd yn dychwelyd yn 2022? Gobeithio wir!

Waldo Williams, y bardd, yn cael ei ryddhau o garchar Abertawe.



Cafodd Waldo Williams ei garcharu am beidio â thalu treth incwm. Roedd hyn yn rhan o'i brotest yn erbyn rhyfel Korea, a hefyd yn erbyn gorfodaeth filwrol, a ddaeth i ben yn 1963. Cafodd ei eiddo ei gymryd gan yr awdurdodau, a chafodd ei garcharu ddwy-waith ddechrau'r 1960au. Yn y llun yma, mae Waldo newydd gael ei ryddhau o garchar Abertawe. Mae nifer o'i gyfeillion yn Abertawe a'r ardal yn y

llun. Oes rhai o'n darllenwyr yn gallu eu nabod? Ar y chwith mae Huw Llywelyn Davies, y darlledwr, yna'i chwaer Bethan. Wrth ei hymyl mae Rachel Mary Davies, o Bengelli, a wedyn Kathe a Gwyn Griffiths. Yn ysgwyd llaw â Waldo mae'r Prifathro Pen-nar Davies. Y

tu ol iddo yntau mae Curig Davies, a oedd yn ysgrifennydd yr Annibynwyr. I'r dde o Waldo mae Tedi Millward, a oedd yn ddarlithydd yn Abertawe, cyn mynd i Aberystwyth, ac yn ei ymyl e mae Eic Davies. Ar dde eithaf y llun mae Robot Gruffudd, gwasg y Lolfa erbyn hyn. Byddai'n dda gwybod pwy yw'r wynebau eraill.

@thatsdevolved.

"Ystyr sylfaenol 'newyddion ffug' yw gwybodaeth sy'n anwir neu'n ffug ac sy'n cael ei chyfleu fel pe bai'n newyddion, ac felly fel pe bai'n wir. Mae'n rhywbeth a allai effeithio ar bob un ohonom a'r ffordd rydym yn byw ein bywydau. Ystyr twyllwbyodaeth yw gwybodaeth anwir a grëwyd yn fwiadol, ac felly mae'n aml yn fath o bropaganda. Gwybodaeth anwir sy'n fwy damweiniol yw camwybodaeth, ond mae'n dal yn anwir ac felly gall fod yn niweidiol iawn o hyd.

"Mae pandemig COVID-19 yn enghraifft dda iawn, oherwydd rydych yn awyddus iawn i gael gwybodaeth ddibynadwy, fel bod pobl yn gwybod beth y gallant ac y dylent ei wneud. Gall hyn arwain at ganlyniadau difrifol iawn oherwydd, yn y pen draw, mae'n fater o fywyd a marwolaeth."

Ffilm newydd yn archwilio newyddion ffug a'i effaith ar ddemocratiaeth yng Nghymru

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru wedi cynhyrchu ffilm newydd sy'n archwilio twf camwybodaeth a thwyllwbyodaeth a'u heffaith niweidiol ar ddemocratiaeth. Mae [Newyddion Ffug yng Nghymru](#) wedi'i gosod yng nghyd-destun ymwybyddiaeth gynyddol o ddatganoli yn ogystal â phandemig y Coronafeirws. Mae *Newyddion Ffug yng Nghymru* yn cynnwys cyfraniadau gan Dr Philip Seargeant, Uwch-ddarlithydd mewn Ieitheg Gymhwysol yng Nghanolfan Iaith a Chyfathrebu'r Brifysgol Agored; Jess Blair, Cyfarwyddwr Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru; Will Hayward, Golygydd Materion Cymreig WalesOnline; a Shaun Bendle, un o sylfaenwyr cyfrif Twitter



Mae *Newyddion Ffug yng Nghymru* yn rhan o hyb newydd [Dinasyddiaeth Weithgar yng Nghymru](#) a grëwyd gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru ar gyfer OpenLearn, sef llwyfan dysgu am ddim y Brifysgol. Mae'r hyb yn cynnwys erthyglau ar sut i ddarllen y newyddion, chwe ffordd o sicrhau y caiff eich llais ei glywed, a chwrs am ddim ar ddeall datganoli yng Nghymru. Mae *Newyddion Ffug yng Nghymru*, hyb [Dinasyddiaeth Weithgar yng Nghymru](#) a mwy na 1000 o gyrsiau am ddim ar gael nawr ar [OpenLearn](#).

Ysgol Gyfun Gŵyr

Diolch i Dafydd Jenkins, Pennaeth **Ysgol Gyfun Gŵyr, Ionawr 2017**-Rhagfyr 2021.

"Braint Ysgol Gyfun Gŵyr oedd dy gael yn Bennaeth arni".

Daeth lluo o gardiau a sylwadau o ddiolch i Mr Dafydd Jenkins, ar ddiwedd cyfnod ei brifathrawiaeth ar Ysgol Gyfun Gŵyr ym mis Rhagfyr 2021. **Nid yw'r gair 'diolch' yn ddigonol fel arwydd o werthfawrogiad cymuned yr ysgol am y cyfnod pum mlynedd llewyrchus a gafwyd dan ei arweinyddiaeth. 'Pâr o ddwylo diogel iawn', 'arweinydd deallus, cadarn a chydwybodol', 'mor lwcus i'w gael wrth y llyw', oedd rhaid o'r sylwadau a wnaed amdano gan deulu'r ysgol.** Roedd egwyddorion Cristnogol Dafydd yn amlwg yn ymdreiddio i bob agwedd o'i waith wrth iddo arwain yr ysgol o ddydd i ddydd. **Roedd unigolion yn bwysig iddo a'r disgybl yng nghanol pob ystyriaeth ym mhob cyddestun addysg a gofal.** Mae swydd Pennaeth yn waith heriol ond fe lwyddodd **Dafydd gydag A* ym mhob elfen o'r gwaith. Heb os, mae'r ysgol yn ddyledus iawn iddo.** Diolch fyth nad ffarwel go iawn yw hwn gan ei fod wedi cytuno i barhau i addysgu ei bwnc arbenigol, sef Mathe-mateg am gyfnod pellach. Fel dywed Dafydd: **'Rwy fel y prif weinidog ym mynd 'nôl i'r meinciau cefn.'** Wrth gwrs ymarferydd addysgol yw Dafydd wrth reddf ac mae'i galon yn gorwedd yn gyfforddus yn y gwaith o addysgu ei bwnc ac ysbrydoli eraill i lwyddo. Mae cymaint o lwyddiannau y gellid eu cofnodi yn gysylltiedig â chyfnod ei brifathrawiaeth: twf yn niferoedd disgyblion a staff, canlyniadau asesadau **allanol gyda'r gorau yng Nghymru, gwired-du cynlluniau i wella adeiladau ac adnoddau chwaraeon yr ysgol, ac arwain yr ysgol gyda'r dewrder rhyfeddaf drwy gyfnod digynsail Covid 19** a sicrhau parhad safonau dysgu ac addysgu rhagorol yr ysgol yn rhithiol.

Cafodd Dafydd ei benodi fel athro yng **Ngŵyr yn 1989, ac yn dilyn cyfnod byr fel Pennaeth Mathemateg yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, dychwelodd i'r ysgol i dreulio gweddill ei yrfa gan orffen yn Bennaeth arni. 'Gwyrte wyf a Gwyrte fyddai' clywid Dafydd yn dweud yn aml.**

Derbyniodd anrhegion gan staff a disgyblion ar ddiwedd y tymor fel arwydd o'u

gwerthfawrogiad, ac yn eu plith cafwyd englyn teyrnged gan Mr Gareth Williams, sydd bellach yn Ddirprwy Bennaeth yr ysgol, **wedi'i fframio gan Miss Lowri Isaac o'r Adran Decstilau, a hefyd pâr o ddarluniau dyfiriw i'w atgoffa o rai o ardaloedd godidog Penrhyn Gŵyr, sy'n gorwedd o fewn dal-gylch yr ysgol.**

Diolch a phob lwc Mr Jenkins. Fel dywedodd Pennaeth Gweithredol newydd yr ysgol, Mr Jeffrey Connick, wrth iddo dalu teyrnged ar ddiwedd y tymor: **'Rwy wedi cael y pleser i gydweithio gyda dau Bennaeth rhagorol cyn Dafydd, ond cefais erioed y pleser i wasanaethu gwell Pennaeth nag efi!'**

Newyddion yr Adran Gerdd Llongyfarchiadau gwresog i David Ingham (Bl.11), Elena Ruddy (Bl.12) ac Elin Rolles (Bl.12) am ennill lle yng Ngherddorfa Cenedlaethol



Llwyddodd tîm pêl-rwyd Bl.9+10 yn ennill y Plât yn Nhwrnamaint yr Urdd heddiw.



leuenticid Cymru. Gwelwyd berfformiadau teimladwy gan nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol yn y Gyngerdd Nadolig a ffrydiwyd arlein i bawb i'w fwynhau.

Newyddion yr Adran Addysg Gorfforol Llwyddodd Llion Jones, Cian Brooks, Evan Davies, Aaron Templeton, Mabon Thomas, John Mann, Lewis Edwards, Joe Walters a Cai Gealy o Fl.10 i ennill lle yng ngharfan rygbi Ysgolion Abertawe.

Llongyfarchiadau i Mai Davies (Bl.10) am gael lle yn nhîm athletau Cymru o dan 17. Mae Ben Thomas a Morgan James o flwyddyn 13 wedi ennill lle yng ngharfan Y Gweilch (o dan 18) gyda Joe Rees hefyd o flwyddyn 13 wedi ennill lle yng ngharfan Y Scarlets (o dan 18).

Mae Ben a Joe hefyd wedi ennill lle yng ngharfan ymarfer Cymru o (dan 18).

Llongyfarchiadau i Oli Lewis ar ei lwyddiant diweddar yn ennill medal Efydd ac yn cael ei ddewis unwaith eto i garfan Jiwdo Cymru! Bydd yn ymuno â Tomas Roberts (Bl.9) yn y garfan.

Llongyfarchiadau Jonathan Chilcott (Bl.13) am gael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn dringo! Mae Ollie Jones (9C) wedi cael ei ddewis i fod yn nhîm polo dŵr Cymru.

Mae Ollie Jones 9 C wedi cael ei ddewis i fod yn nhîm polo dŵr Cymru.



Mae Oli Lewis wedi ennill medal efydd ym Mhencampwriaeth Jiwdo Cymru cyn Nadolig.

O'R DUDALEN FLAEN

iaith eich mam a'ch tad hefyd, mewn perig o ddiplannu oddiar fryniau ac o ddolydd ein hanwyl wlad."

Roedd nifer y siaradwyr Cymraeg wedi syrthio i 922,092 yn 1921, o 977,366 yn 1911, ac er bod y nifer yma'n uchel o'i gymharu â heddiw (562,016 yn 2011) roedd y cwmp ym ddigon i ysgogi lfan ab Owen Edwards i roi cynnig ar gychwyn mudiad ieuencid.

Roedd ei dad, Owen Edwards, wedi cyhoeddi Cymru'r Plant ers deng mlynedd ar hugain, ond dyma'r mab yn cychwyn menter newydd i rai o dan ddeunaw oed. Lluniodd fathodyn o lew ar darian, llew a allai fod yn un cysylltiedig ag Arthur neu Glyn-dŵr, a lluniodd reolau i'r mudiad:

Siarad Cymraeg gyda phob plentyn Cymreig: yn enwedig gyda phob un sydd yn perthyn i'r Urdd.

Darllen a phrynu llyfrau Cymraeg. Canu caneuon Cymraeg.

Chware bob amser yn Gymraeg.

Peidio byth a gwadu mai Cymry ydym, na bradychu ein gwlad ar unrhyw amgylchiad.

Edrych ar bob Cymro a Chymraes, hyd yn oed pe baent dlawd ac yn eu carpiâu, fel cyfeillion inni, a gwneud ein goreu trostynt.

Gwisgo'r bathodyn cyn amled ag y gallwn.

Ym mis Chwefror, mae enwau aelodau cyntaf Urdd Gobaiith Cymru Fach yn cael eu cyhoeddi, a rhagor ym mis Mawrth. Mae'r mwyafrif helaeth yn byw yn y gogledd. Wm. Rheinallt Thomas o Bontarddulais yw aelod rhif 34. D. James Thomas, Pontarddulais yw aelod rhif 35. Erbyn mis Ebrill, mae dau aelod o Gastell-nedd, Gwyndaf ac Ednyfed Roberts (aelodau 186,187).

Mae'r cylchgrawn yn cynnal cystadlaethau i aelodau'r Urdd, ac mae lfan ab Owen yn llym ei feirniadaeth o ymgeiswyr sy'n defnyddio enwau Saesneg eu trefi: "Wrth gwrs, nid oes gwobr i'r rhai sydd yn enwi eu tref yn Saesneg."

Yn chweched rhestr yr aelodau ym mis Gorffennaf, mae aelod arall o Bontarddulais,

Cyril Davies (rhif 480). Yn y rhestr nesaf mae Gwylfa Roberts o Gorseinon (574). Ym mis Medi mae Reinallt Morris o Bontarddulais yn ymaelodi (592).

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd 720 o aelodau wedi ymuno, a rhai eisoes wedi cyrraedd statws rhingyll, capten ac is-gapten yn y mudiad, a oedd yn cael ei drefnu yn ôl trefn y sgowtiaid, y bu lfan ab Edwards yn aelod ohonynt. Y gwahaniaeth mawr rhwng y ddau fudiad yw bod yr Urdd yn fudiad i fechgyn a merched, a'i brif nod ar hyrwyddo'r Gymraeg yn iaith pob gweithgaredd.

Wrth ateb un aelod, medd lfan ab Owen Edwards, "Nis gallwch ddod ymlaen yng Nghymru heddyw os na allwch siarad yr iaith Gymraeg. Yn wir, peidiwch a cheisio dynwared y Saeson, - maen nhw'n bobl dda iawn, ond cofiwch mai Cymry ydych

chwi. Gadwch i'r Saeson fod yn Saeson, ond cofiwch chi fod yn Gymry. Mae pawb yn siŵr o ddod i uno a'r Urdd cyn hir."

Mae'r frawddeg yna'n eitha proffwydol, a'r Urdd gan mlynedd yn ddiweddarach â 50,000 o aelodau. Mae'n siŵr bod trefn a hyder lfan ab Owen yn allweddol yn y llwyddiant. Ymhen pedair blynedd roedd gan yr Urdd 5,000 o aelodau a 80 o adrannau.

Cychwynwyd gwersyll parhaol cyntaf yr Urdd yn Llangrannog yn 1932 a'r flwyddyn honno hefyd cynhaliwyd eisteddfod genedlaethol gyntaf yr Urdd ym Machynlleth.. Agorwyd yr ysgol Gymraeg gyntaf yn adeilad yr Urdd yn Aberystwyth yn 1939. Yn 1950 sefydlwyd ail wersyll parhaol yng Nglanllyn, Llanuwchllyn.

Erbyn diwedd 1922, fodd bynnag, nid oedd gan yr Urdd, hyd y gwelwn, gymaint ag un aelod yn Abertawe, er bod rhai ym Rhondda. Mudiad i ogledd Cymru ydoedd yn bennaf ar y cychwyn, ond newidiodd hyn yn fuan.

Llyfr da yn cynnig gaeaf llawn lles mewn llyfrgelloedd cyhoeddus Annog plant a phobl ifanc i enwebu llyfrau sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n well

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn ymuno â menter Gaeaf Llawn Lles Cymru trwy



lansio ymgyrch i hyrwyddo'r gwahaniaeth sicr y gall darllen ei wneud i fywydau pobl ifanc a phwer llyfrgelloedd cyhoeddus i'w cefnogi. I ddathlu'r lansiad, mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwahodd

i enwebu a rhannu llyfr sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i sut maen nhw'n teimlo. Cyhoeddir rhestr hir genedlaethol ddiwedd y mis hwn, wrth i lu o ddigwyddiadau a gweithgareddau gael eu lansio ar-lein ac mewn llyfrgelloedd. Mae enwebiadau yn agored i bob llyfr, Saesneg neu Gymraeg, gan gynnwys ffuglen, ffeithiol, llyfrau lluniau, barddoniaeth, Manga, nofelau graffig a mwy.

Medd enillydd pedair Gwobr Llyfrau Plant Tir na n'Og ac awdur cyfredol y mis Llyfrgelloedd Cymru, Manon Steffan Ros, "Mae llyfrgelloedd yn ganolbwyntiau cymunedol a does dim byd tebyg iddyn nhw i ganoli'r profiad cymdeithasol o fod mewn cymuned, neu i ddemocrateiddio gwybod-aeth.

"Ysgrifennais i gryn dipyn o lyfrau yn fy llyfrgell leol a sylweddolais nid yn unig sut roedd llyfrgellwyr yn wych am groesawu pobl ifanc, dod o hyd i lyfrau ac argymell rhai ar eu cyfer, ond hefyd adeiladu cysylltiadau cymdeithasol â phawb oedd yn dod i mewn, a'u cyflwyno i eraill trwy grwpiau a digwyddiadau hefyd.

"Rydyn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda'n gilydd i gysylltu pobl a'u llyfrgelloedd sy'n ganolbwyntiau cymunedol mor wych, ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at glywed eu barn."

I gael mwy o wybodaeth am Gaeaf Llawn Lles a sut y gall eich plentyn neu chi enwebu llyfr ewch i

www.readingagency.org.uk/

GaeafLlawnLles neu'n syth i'r dudalen enwebu <https://www.surveymonkey.co.uk/r/WoWWelsh>